Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS
Yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

17 Mawrth 2022

Annwyl Dominic,

Gwahoddiad i roi tystiolaeth

Mae fy **Mhwyllgor** wedi cael y cylch gorchwyl gan y Senedd i ystyried materion sy'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, clywsom **dystiolaeth lafar** gan yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd ar adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ac ym mis Ionawr cymerwyd **tystiolaeth lafar** gan y Cwnsler Cyffredinol ar faterion cyfiawnder o fewn ei bortffolio. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn ystod y sesiynau hyn wedi bod yn werthfawr iawn i lywio ein hystyriaeth gychwynnol o'r materion hyn.

Yn y cyfamser, rydym wedi ystyried ein dull o gymryd tystiolaeth yn y dyfodol. O ganlyniad, hoffem eich gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar faterion allweddol sy'n eich wynebu yn eich rôl fel Arglwydd Ganghellor. Nodwn y sesiwn ddefnyddiol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd gyda eich rhagflaenydd **yn 2021**, a'r gobaith yw y bydd yr ymgysylltu hwnnw'n parhau. Efallai y bydd o ddiddordeb i chi ein bod hefyd wedi gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor y Gyfraith Cymru a'r Arglwydd Brif Ustus i roi tystiolaeth mewn cyfarfodydd ar wahân.

Rydym yn bwriadu cynnal y sesiwn dystiolaeth yn ystod prynhawn dydd Llun, 13 Mehefin 2022. Er mai cyfarfod yn bersonol fyddai orau gennym, byddem yn gallu cyfarfod mewn fformat rhithwir neu hybrid pe bai hynny'n hwyluso eich presenoldeb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau eich presenoldeb â'n clercod, drwy gysylltu â **SeneddLJC@senedd.cymru**.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd